Cyngor Cymuned Pentir

# Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Hydref 2024 Yng nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00

# Agenda

1. **Presennol: /Present**

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

3. **Cyfethol / Co-opt**

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Fedi / September 2024**

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   - i. **Mantolen ariannol / Financial report**
   - ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 25/09/2024**

8. **Cynllunio / Planning**

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**
     - **Ethol cynrychiolydd i bwyllgor rheoli y ganolfan**
   - **Seddi gwag Trafod seddi y ddwy ward Glasinfryn x 2 a Faenol**
   - **Mabwysiadu Polisiau**
   - **Diffibs Angen ystyried cyllido i'r dyfodol**
   - **Capel y Fynwent** **Esiamplau deunydd/patrwm**
   - **Rhyddhau Gwybodaeth / FOI** **Mater wei cau / matter closed**

10. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng I Ellis** **Goleuadau nadolig**

Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Fedi 2024 Yng nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00

1. **Presennol: /Present**

Cyng I Ellis Cadeirydd, Cyng J Pierce; Cyng L A James; Cyng A Joyce; Cyng J Griffiths; Cyng C W Owen; Cyng D Jones-Morris; Cyng B Jones

Hefyd Sioned Jones Cyfieithydd Iwan Ap Trefor Swyddog Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd a'r Clerc

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

Cyng E Roberts

3. **Anerchiad gan Mr Iwan Ap Trefor Swyddog Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd**

Croeaswodd y Cadeirydd Iwan Ap Trefor i'n plith cyn i Iwan gychwyn y drafodaeth gan bwysleisio mae trafodaeth yn hytrach na chyflwyniad oedd yn awyddus ei gynnal, a chlywed barn y Cynghorwyr a thrwyddynt hefyd barn y gymuned

Trafodwyd y cynllun yn ei gyfanrwydd gan gofio mae dim ond rhan fechan o'r cynllun presennol sydd yn ardal Pentir

Mynegwyd pryder fod ceir yn cael eu parcio ar y llwybr yn ogystal a bod beicio yn parhau ar y ffordd a holwyd os oedd gwir angen y llecyn main gwyrdd rhwng y Llwybr a Ffordd Penrhos

Esbonwyd fod y llecyn gwyrdd yn y cynllun fel rhywle i ddwr wyneb y llwybr dreiddio i'r ddaear yn hytrach na llifo i'r ffordd fawr ond bod hynny yn cael ei ail-ystyried yn enwedig wrth gynllunio agwedd 2 a 3 o'r cynllun mawr

**Lleoliad y Groesfan wedi bod yn ddadleuol**

Awgrymwyd y byddai cael croesfan wrth gylchfan Ysbyty Gwynedd ag un arall yn agos at gyffordd Coed y Maes a Ffordd Penrhos yn fwy derbynniol na chael un haner ffordd rhwng y ddau leoliad – byddai y Cyngor yn ystyried hynny

Diolchodd y Cadeirydd i Iwan am ei amser

Gadawodd Iwan Ap Trefor ac ymddiheurodd y Cyng D Jones-Morris bod rhaid iddo yntau adael y cyfarfod

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

Cyng A Joyce a Cyng L A James yn datgan eu bod yn ymddiriedolwyr yng Nghanolfan Penrhos

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 25eg o Orffennaf / July 2024**

Cyfeiriodd Cyng A Joyce nad oedd y cofnodion yn ei enwi yn datgan ei anfodlonrwydd ynglyn a derbyn cofnodion Gorffennaf yn gywir, ac i'r cofnodion gael ei addasu. Esboniodd y Cadeirydd fod y cofnodion yn adrodd mae gan y mwyafrif oedd y cofnodion wedi eu derbyn fel rhai cywir heb enwi neb. Eglurodd y Clerc bod angen derbyn cofnodion gan nodi unrhyw nam cywirdeb yng nghofnodion y mis dilynnol.

Derbynwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

Derbynwyd gan 6 aelod ag 1 yn atal

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

Bin sbwriel wrth y gysgodfan yn Bryn Ogwen heb ei osod – **Clerc i wneud ymholiad pellach**

Cyflwr y chwyn ar y palmentydd yn parhau **- Clerc i wneud ymholiad pellach hefo Tim Tacluso Gwynedd**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol / Financial report**
      Derbynwyd a chadarnhawyd y taliadau
   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 24/07/2024**
      Adroddwyd ar lafar fod y cyfarfod oedd wedi ei gynnal y noson cynt wedi trafod a blaenoriaethu y Polisiau oedd angen sylw o ran eu addasu/cyfieithu cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu

8. **Cynllunio / Planning**
**C24/0677/25/HD Dwyfor 5 Alotan Cresent Penrhosgarnedd Bangor Hysbysiad mlaen llaw 0 ddymchwal estyniad Cegin gefn**
**Dim gwrthwynebiad**

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - **Ethol Is-Gadeirydd** Cynnigwyd enw **Cyng C W Owen** gan y Cyng L A James a'i eilio gan y Cyng J Pierce. Ni ddaeth enw arall ymlaen
     **6 o blaid ag un yn atal**
   - **Polisiau Gweler 7 ii**
   - **Rhyddhau Fwybodaeth /F O I Cyfieithu Llythyr personol er budd unigolyn**
     Trafodwyd fod cais wedi dod gan yr ymgeisydd gwybodaeth sy'n ddi-gymraeg i gyfieithu Llythyr Cymraeg oedd wedi ei anfon yn bersonol at berson Cymraeg ei iaith. **Pawb o blaid peidio cyfieithu**
   - **Ymgynghoriad Sustem bleidleisio / Consultation voting system**
     Trafodwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar newid y ffordd mae Cynghorwyr Sir yn cael eu ethol o'r sustem bresennol i Bleidlais sengl drosglwyddiadwy
     **Cyngor Pentir o blaid y sustem newydd**
   - **Seddi gwag** **Ward Glasinfryn x 2 a Faenol**
     Mae'r cyfnod galw am etholiad wedi dod i ben heddiw felly mae'r hawl gan y Cyngor i gyfethol rhai fyddai yn datgan diddordeb
   - **Capel y Fynwent** **Dewis deunydd/patrwm**
     Defnydd wedi ei rannu – dewiswyd y lliw ond gofyn os oedd posib cael golwg ar ddefnydd Amtico a Cardine
     **Cytunwyd gofyn am batrwm plancia yn hytrach na herringborn**
     **Clerc i gysylltu a Ross Hughes**
   - **Calendr 2024-25 Cyngor Pentir** **Wedi ei rannu**
   - **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol** **Trwydded a'r Maes Parcio**
     Mae'r sustem parcio yn gweithio yn dda hyd yma o ochr yr Ysgol a ninnau Angen cadw golwg ar y marcio blychau parcio a'r llwybr a holi sut bydd misoedd y gaeaf yn sefyll i fynnu hefo'r dywydd Oes angen goleuadau ? Os oes lle bydd y cyswllt a pwy sy'n gyfrifol am y gost
     Angen cadw pwysau ar y Cyngor Sir i holi os oes unrhyw ddatblygiad o'r trafodaethau rhyngddynt a'r Eglwys

**10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng B Jones** **Sbwriel o amgylch Ysbyty Gwynedd a yr ardal yn gyffredinnol**
Mynegwyd pryder ynglyn a chyflwr ardal Penrhos yn gyffredinnol o ran sbwriel ond yn fwy penodol o fewn cwrtil Ysbyty Gwynedd
**Clerc i gysylltu hefo Paul Andrews Cyng L A James i anfon teitl swydd a.y.y.b**

**Cyng I Ellis** **Goleuadau nadolig**
Gwynedd wedi cadarnhau bydd angen dewis lampau sydd heb gamera arnynt gan fod y Cynghorwyr wedi sylwi bod dau o'r polion lamp dan sylw wedi cael camera arnynt erbyn hyn
**Angen dewis ag archebu goleuadau fel y gall y gwaith gosod a'r gwaith trydannol gael ei wneud yr un amser**

**Cyng J Griffiths** **Datblygiadau ar y Cae yn Caerhun –** Clerc eisioes wedi cysylltu a'r adran gynllunio – angen dwyn pwysa pellach gan fod amser yn mynd rhagddo
**To Canolfan Glasinfryn yn gollwng eto** Clerc wedi cysulltu a Contractwr
**Hysbysfwrdd Caerhun – hinge wedi torri** Clerc wedi cysulltu a Contractwr
**Llwybrau Caerhun Glasinfryn** Clerc wedi cysulltu a Contractwr sy'n rhedeg yn hwyr oherwydd y tywydd gwlyb
**Parcio ar y bont dros yr A55** Clerc wedi cysylltu a'r Heddlu – Dim yn anghyfreithlon onibai bod gwaharddiad a/neu eu bod yn achosi rhwystr

**Cyng A Joyce** **Cofrestr Risg** Nodwyd bod ei sylw wedi ei basio mlaen i'r IBC ond nad oedd y Pwyllgor hwnnw heb gyfarfod yn ystod Awst
Awgrymwyd iddo anfon unrhyw argymhelliad/addasiad / ychwanegiad oedd yn awyddus i'r IBC ystyried

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00